Hawdd ei Ddeall

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

# Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

## Beth rydym yn bwriadu eu wneud yn 2023 i 2024




Mae'r ddogfen yma wedi cael eu hysgrifennu gan **Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cynllun Gwelliant Blynyddol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru – Sut y gwnaethom yn 2023-2024**'.

**Rhagfyr 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 32**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.** Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

**Gwefan:** www.decymru-tan.gov.uk

**Ffôn:** 01443 232000

**E-bost:** gtdc@decymru-tan.gov.uk

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Cyflwyniad....................4**

**Sut rydyn ni wedi gwneud y cynllun yma....................6**

**Beth rydyn ni'n bwriadu ei wneud yn 2023 i 2024....................7**

1. Eich cadw chi yn ddiogel....................7
2. Ymateb i'ch argyfwng....................11
3. Gweithio gyda'n partneriaid....................13
4. Cyfathrebu yn well....................16
5. Edrych ar ôl ein hamgylchedd....................18
6. Defnyddio technoleg yn well....................21
7. Gwerthfawrogi ein pobl....................23
8. Gweithio yn y ffordd orau....................27

**Cael dweud beth rydych chi'n feddwl....................30**

**Geiriau Anodd....................32**

# Cyflwyniad

Ni ydy Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.



Rydyn ni eisiau cadw pobl De Cymru yn ddiogel rhag tanau a pheryglon eraill.



Rydyn ni'n helpu pobl drwy ddiffodd tanau. Rydyn ni hefyd yn helpu gyda phroblemau eraill fel damweiniau ffyrdd a phan mae pobl mewn perygl yn y dŵr.




Mae'r ddogfen yma am y pethau rydyn ni'n bwriadu ei wneud yn 2023 i 2024.



Mae'n dweud wrthych chi beth rydyn ni wedi ei wneud i wella ein gwasanaeth.



Rydyn ni wedi gwneud y cynllun yma drwy weithio gyda'n staff, cymunedau a phartneriaid.




Pan rydych chi wedi darllen y ddogfen yma rydyn ni eisiau i chi ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl. Rydych chi'n gallu llenwi ein arolwg yma.





Mae beth rydych chi'n feddwl yn bwysig inni. Mae yn ein helpu ni i wneud cynlluniau gwell ar gyfer y dyfodol.

# Sut rydyn ni wedi gwneud y cynllun yma



Yn Mehefin 2022, fe wnaethon ni ofyn i'n staff a'n partneriaid am ein nodau. Fe wnaethon ni ofyn 3 chwestiwn iddyn nhw:

- Beth ddylen ni fod yn ei wneud y flwyddyn nesaf i wella ein Gwasanaeth yn 2023 i 2024?
- Pe byddech chi'n gallu gwneud un newid i'n gwasanaeth beth fyddai hynny?
- Oes yna wasanaethau y dylen ni fod yn canolbwyntio llai arnyn nhw?




Fe wnaethon ni gael 130 o atebion. Fe wnaethon ni gael y rhan fwyaf o'r atebion gan ein staff a'n gwirfoddolwyr. Roedd y rhain yn ein helpu ni i wneud y cynllun yma.




Fe wnaethon ni edrych ar gwynion i weld os oedd yna unrhyw broblemau oedd yn digwydd trwy'r amser. Fe wnaethon ni dderbyn 39 o gwynion yn 2021 i 2022 ac fe wnaethon ni ateb pob un.



Doedd dim problemau oedd angen inni newid ein cynlluniau na'r ffordd rydyn ni'n gweithio.

# Beth rydyn ni'n bwriadu ei wneud yn 2023 i 2024

Rydyn ni wedi adeiladu ein cynllun o gwmpas **8 maes**:



## 1. Eich cadw chi yn ddiogel



**Canolbwyntio ar waith atal i helpu i leihau'r angen i chi ein ffonio ni.**



Mae beth rydyn ni wedi ei wneud yn y blynyddoedd diwethaf wedi helpu i leihau'r nifer o argyfyngau rydyn ni'n cael eu galw iddyn nhw. Rydyn ni eisiau i hyn barhau.

**Rydyn ni eisiau gweld llai o'r isod:**



- Galwadau sydd yn troi allan i fod yn **alwadau ffug**.

> **Galwadau ffug** ydy pan rydyn ni'n gorfod gadael i fynd i argyfwng ond pan rydyn ni'n cyrraedd does dim argyfwng.



- Tanau mewn tai.



- Damweiniau ffordd.



- Tanau'n cael eu dechrau yn fwriadol.

**Rydyn ni eisiau gwella:**



- Diogelwch yn ac o gwmpas dŵr.



- Diogelwch tân mewn adeiladau yn ein cymunedau.



**Ein Nodau:**




Defnyddio'r ffyrdd gorau o rannu gwybodaeth diogelwch gyda'n cymunedau. Dweud wrth bobl mewn cymunedau am sut i fod yn fwy diogel yn y dŵr.



Gweithio i leihau tanau sydd yn cael eu dechrau yn fwriadol.



Gweithio i leihau **tanau gwyllt** drwy weithio gyda pherchnogion tir a phartneriaid.

**Tân gwyllt** ydy tân sydd ddim ei eisiau ac sydd heb ei reoli mewn coedwigoedd neu yng nghefn gwlad. Maen nhw'n lledaenu yn gyflym ac maen nhw'n gallu bod yn anodd i'w diffodd.



Rhoi cyngor pan rydyn ni'n ateb **galwadau ffug**.



Gweithio i ddeall pwy sydd fwyaf mewn perygl yn ein cymunedau.

# 2. Ymateb i'ch argyfwng




**Gwneud yn siŵr ein bod yn ymateb yn gyflym pan rydych chi ein hangen ni.**



Rydyn ni angen staff sydd wedi cael eu hyfforddi a'r offer gorau i gadw ein cymunedau yn ddiogel.

**Rydyn ni eisiau:**




- Gwneud yn siŵr bod ein **hymladdwyr tân ar alwad** ar gael.

> **Ymladdwyr tân ar alwad** ydy ymladdwyr tân sydd yn barod ac ar gael i weithio os oes eu hangen nhw.



- Hyfforddi ein staff i ymateb i risgiau cyfredol a risgiau yn y dyfodol yn ein cymunedau.

**Ein Nodau:**




Rhoi hyfforddiant sydd yn paratoi ein pobl ar gyfer galwadau yn y dyfodol.



Chwilio am y dillad a'r offer gorau i'n hymladdwyr tân.




Hysbysebu'r swyddi **ar alwad** yn ein cymunedau.

# 3. Gweithio gyda'n partneriaid



**Gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus De Cymru a phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaeth tân ac achub sydd yn ateb eich anghenion.**



**Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** ydy gwasanaethau sydd yn ffurfio grŵp i weithio gyda'i gilydd a gwneud gwasanaethau cyhoeddus yn well. Gwasanaethau fel cynghorau lleol, GIG, yr heddlu, y gwasanaeth tân ac achub ac elusennau.




Rydyn ni'n gweld bod gweithio gyda phartneriaid yn bwysig. Fe fydd rhannu ein sgiliau a beth rydyn ni'n ei wybod yn helpu pobl un ohonom ni.

**Rydyn ni eisiau:**



- Gweithio gyda **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** i helpu ein cymunedau.



- Gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu ein gwasanaethau lle rydych chi eu hangen nhw.



- Edrych i weld ein bod yn gweithio gyda'n partneriaid yn y ffordd orau.

**Ein Nodau:**



Darganfod ffyrdd newydd o rannu gwybodaeth fel bod gwell canlyniadau yn ein cymunedau. Edrych ar ffyrdd o rannu ein hadeiladau gyda **gwasanaethau brys** eraill.




**Gwasanaethau brys** ydy gwasanaethau i'w galw mewn argyfwng fel yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Ambiwlans.



Gwneud ein cysylltiadau gyda'n partneriaid yn gryfach a darganfod ffyrdd newydd o weithio gyda'n gilydd.



Parhau i weithio gyda gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru i leihau risgiau.



Datblygu ein gwaith gyda **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** i wneud yn siŵr ein bod yn helpu pobl sydd ein hangen fwyaf.

# 4. Cyfathrebu yn well



Gwella wrth roi gwybodaeth i'n staff a'n cymunedau fel eu bod nhw yn gallu ein helpu ni i wneud gwaith da.



Mae **cyfathrebu** yn meddwl sut rydyn ni'n rhoi gwybodaeth i bobl. Mae'n meddwl pethau fel siarad, ysgrifennu, digwyddiadau, fideos a **chyfryngau cymdeithasol**.

**Cyfryngau cymdeithasol** ydy ffyrdd o rannu gwybodaeth ar eich ffôn neu gyfrifriadur. Er enghraifft, Facebook, Twitter ac Instagram.




Rydyn ni'n gallu cadw ein cymunedau yn fwy diogel drwy roi gwybodaeth dda iddyn nhw a gwrando ar eu syniadau.

**Rydyn ni eisiau:**



- Gwneud yn siŵr bod cymunedau yn cael llais yn beth rydyn ni'n ei wneud.




- Rhoi sgyrsiau diogelwch a mynd i ddigwyddiadau i helpu i gadw ein cymunedau yn ddiogel.

**Ein Nodau:**



Gwneud yn siŵr ein bod ni yn cyrraedd ein holl gymunedau. Edrych ar ffyrdd newydd o ddarganfod beth maen nhw'n feddwl.



Darganfod ffyrdd newydd o rannu gwybodaeth am fod yn ddiogel. Cynllunio a hysbysebu pan rydyn ni mewn digwyddiadau cymunedol.




Dweud rhagor wrth ein staff, ein cymunedau a'n partneriaid am ein gweithgareddau a'n cynlluniau.

# 5. Edrych ar ôl ein amgylchedd



**Gwneud ein gwaith mewn ffordd sydd yn helpu'r blaned.**



Fe fyddwn ni yn lleihau'n heffaith ar yr **amgylchedd** ac amddiffyn bywyd gwyllt a lleoedd fel ein bryniau.

Yr **amgylchedd** ydy lle rydyn ni'n byw. Mae'n meddwl y tir, môr, aer a phopeth sydd yn byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.

**Rydyn ni eisiau:**



- Defnyddio llai o blastig un tro fel gwelltyn, poteli a bagiau.



- Defnyddio rhagor o **gerbydau trydan**.

Mae **cerbydau trydan** fel ceir yn defnyddio trydan i redeg. Maen nhw'n well i'r **amgylchedd**.



- Defnyddio llai o ynni.



- Meddwl mwy am sut mae ein gwaith yn effeithio ar yr **amgylchedd**.



- Cynhyrchu llai o wastraff.

**Ein Nodau:**



Siarad gyda staff am beth rydyn ni'n gallu ei wneud i helpu'r **amgylchedd**.




Cael rhagor o bwyntiau gwefru ar gyfer **cerbydau trydan**.



Dargarnfod ffyrdd newydd o weithio sydd yn helpu'r blaned.

# 6. Defnyddio technoleg yn well




**Edrych ar ddefnyddio technoleg yn well i wella ein gwasanaeth i chi.**



Fe fydd yn gwneud yn siŵr ein bod yn gallu ymateb yn well i ddigwyddiadau fel tanau a damweiniau car. Fe fydd yn helpu ein staff i gadw ein cymunedau yn ddiogel.

**Rydyn ni eisiau:**




- Defnyddio’r dechnoleg a’r offer cywir i wneud ein gwasanaethau yn well.



- Edrych ar y dechnoleg a’r offer rydyn ni yn eu defnyddio.

**Ein Nodau:**



Darparu rhagor o hyfforddiant drwy fideo.



Defnyddio rhagor o dechnoleg symudol, fel tabledi.



Cael gwell systemau adrodd i'n staff.



Edrych ar dechnoleg i helpu gyda'n gweithgareddau sydd yn lleihau risg.




Gwneud ein rhyngrwyd yn well ac yn fwy cyflym ar gyfer ein galwadau fideo, cyfrifiaduron a ffonau.



Cael rhagor o sgyrsiau gyda staff drwy ddefnyddio galwadau fideo.

# 7. Gwerthfawrogi ein pobl



**Cefnogi'r bobl amrywiol sydd yn gweithio inni a'u hyfforddi nhw'n dda.**



Mae **amrywiol** yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yng Nghymru yn:

- dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau
- mae ganddyn nhw alluoedd gwahanol
- credu mewn gwahanol bethau
- hunaniaethau rhywiol gwahanol
- gwneud dewisiadau gwahanol am sut maen nhw yn byw eu bywydau
- gwahanol oed.



Fe fyddwn ni'n gwneud pethau yn well i'n staff cyfredol a'n staff yn y dyfodol.

**Rydyn ni eisiau:**



- Bod mor **amrywiol** â'n cymunedau.



- Rhoi hyfforddiant da i'n pobl.




- Helpu ein pobl i deimlo yn dda, iach a hapus yn y gwaith.




- Helpu rhagor o bobl sydd yn gweithio inni i ddefnyddio'r Gymraeg.

**Ein Nodau:**




Cefnogi ein staff i siarad am lesiant a nodau swyddi.



Gwneud rhaaor o ardaloedd llesiant i'n staff ym mhob lleoliad.




Gwneud yn siŵr bod staff yn gallu dysgu rhagor o sgiliau.




Hysbysebu ein swyddi newydd yn fwy cyflym.



Helpu ein staff i ddweud wrthyn ni beth maen nhw'n feddwl.



Cynyddu **amrywiaeth** y bobl sydd yn gwneud cais i weithio inni.



Gwneud yn siŵr ein bod yn clywed beth mae ein staff yn feddwl a rhoi atebion clir iddyn nhw.

# 8. Gweithio yn y ffordd orau



**Gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud ein gwaith i'r safon uchaf ond ar y gost isaf.**

Pan rydyn ni'n edrych faint i'w wario, rhaid inni feddwl am:



- Gwneud ein gwasanaethau yn well.



- Sut rydyn ni'n gallu helpu ein cymunedau orau.

**Rydyn ni eisiau:**



- Bod yn glir ac yn agored.




- Gwario'r arian lleiaf tra'n gwella ein gwasanaethau.



- Gwneud ffyrdd newydd o weithio.

**Ein Nodau:**




Darganfod ffyrdd o weld os ydy ein prosiectau yn mynd yn dda.



Ffitio ein cyrsiau hyfforddi o gwmpas ein gwaith. Gwella'r ffordd rydyn ni'n defnyddio ac yn rhannu gwybodaeth i helpu gwell ffyrdd o weithio.



Darganfod ffyrdd newydd i bobl ddweud wrthyn ni beth maen nhw'n feddwl am ein gweithgareddau.

**Fformatau eraill**




Os ydych chi eisiau'r wybodaeth yma mewn iaith neu fformat wahanol fel braille neu sain, cysylltwch gyda ni os gwelwch yn dda.

# Cael dweud beth rydych chi’n feddwl



**Rydyn ni eisiau clywed beth rydych chi’n feddwl am ein gweithgareddau a’n gwybodaeth. Fe fydd yn ein helpu ni i wneud ein gwasanaethau yn well.**




Rydyn ni eisiau i chi ddweud beth rydych chi’n feddwl yn ein harolwg 2022 yma.

**Ysgrifennu:**



Perfformiad a Chynllunio Gwasanaeth
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View
Llantrisant
CF72 8LX



**E-bost:** gtdc@decymru-tan.gov.uk




**Gwefan:** www.decymru-tan.gov.uk

**Ffôn:** 01443 232000

**Facebook:** @TanDeCymru

**Twitter:** @TanDeCymru

**Instagram:** sw_fire_and_rescue




Rydych chi'n gallu cysylltu gyda ni yn Gymraeg neu yn Saesneg. Fe fyddwn ni yn ateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio.

# Geiriau Anodd

## Amgylchedd

Yr amgylchedd ydy lle rydyn ni'n byw. Mae'n meddwl y tir, môr, aer a phopeth sydd yn byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.

## Amrywiol

Mae amrywiol yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft  mae pobl yng Nghymru yn:

- dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau
- mae ganddyn nhw alluoedd gwahanol
- credu mewn gwahanol bethau
- hunaniaethau rhywiol gwahanol
- gwneud dewisiadau gwahanol am sut maen nhw yn byw eu bywydau
- gwahanol oed.

## Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ydy gwasanaethau sydd yn ffurfio grŵp i weithio gyda'i gilydd a gwneud gwasanaethau cyhoeddus yn well. Gwasanaethau fel cynghorau lleol, y GIG, yr heddlu, y Tân ac Achub ac elusennau.

## Cerbydau trydan

Mae cerbydau trydan fel ceir yn defnyddio trydan i redeg. Maen nhw'n well i'r amgylchedd.

## Cyfathrebu

Mae cyfathrebu yn meddwl sut rydyn ni'n rhoi gwybodaeth i bobl. Mae'n meddwl pethau fel siarad, ysgrifennu, digwyddiadau, fideos a chyfryngau cymdeithasol.

## Cyfryngau cymdeithasol

Ffyrdd o rannu gwybodaeth ar eich ffôn neu gyfrifiadur. Er enghraifft Facebook, Twitter ac Instagram.

## Galwadau ffug

Galwadau ffug ydy pan rydyn ni'n gadael i fynd i argyfwng ond pan rydyn ni'n cyrraedd does dim argyfwng.

## Gwasanaethau Brys

Gwasanaethau i'w galw mewn argyfwng fel yr Heddlu, Tân ac Achub ac Ambiwlans.

## Tanau gwyllt

Tân gwyllt ydy tân sydd ddim ei eisiau ac sydd heb ei reoli mewn coedwigoedd neu yng nghefn gwlad. Maen nhw'n lledaenu yn gyflym ac maen nhw'n gallu bod yn anodd i'w diffodd.

## Ymladdwyr tân ar alwad

Ymladdwyr tân ar alwad ydy ymladdwyr tân sydd yn barod ac ar gael i fynd i weithio os oes eu hangen nhw.